GWEINIDOGION CYMRU

Gorchymyn Prynu Gorfodol (Atodol) Gweinidogion Cymru (Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) 201-

DATGANIAD O RESYMAU

1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ffyrdd arbennig (gan gynnwys traffyrdd) a chefnffyrdd yng Nghymru. Yn ogystal â gwasanaethu cymunedau lleol, mae'r M4 o amgylch Casnewydd yn llwybr o bwys strategol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol, lleol a rhyngwladol, sy'n cysylltu de a gorllewin Cymru â de-orllewin Lloegr ac mae'n rhan o lwybrau strategol i lwerddon, canolbarth Lloegr, de-ddwyrain Lloegr ac ymhellach i gyfandir Ewrop (y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd).

1.2 Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru gynigion drafft ar 10 Mawrth 2016 ar gyfer adeiladu rhan newydd o'r draffordd i'r de o Gasnewydd, ochr yn ochr â mesurau ategol.

1.3 Mae'r cynigion cyhoeddedig ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd (y cyfeirir atynt fel 'y Cynllun') yn cynnwys:

a) Gorchymyn Cynllun drafft er mwyn darparu rhan newydd o'r draffordd ddeuol â thair lôn rhwng Magwyr a Chas-bach i'r de o Gasnewydd, ei ffyrdd ymuno ac ymadael newydd a ffyrdd cysylltu. Mae hefyd yn darparu ar gyfer pontydd sy'n croesi dyfrffyrdd mordwyadwy;

b) Gorchymyn Amrywio Cynllun drafft i ddileu dosbarthiad ffordd arbennig rhannau amrywiol o draffordd bresennol yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach a thraffordd yr A48(M) rhwng Cas-bach a Llaneirwg. Er na fyddai'r rhannau hyn yn rhan o'r draffordd mwyach byddent yn parhau i fod yn rhan o'r gefnffordd;

c) Gorchymyn Llinell drafft er mwyn darparu ar gyfer y rhannau newydd o gefnffordd sydd eu hangen ar gyfer y Cynllun;

d) Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft er mwyn cau, gwella neu newid rhai rhannau o ffyrdd, llwybrau troed, llwybrau beicio, cilffyrdd, llwybrau ceffylau a ffyrdd mynediad preifat sy'n bodoli eisoes, er mwyn adeiladu priffyrdd newydd a darparu ffordd fynediad breifat newydd;

e) Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft sy'n darparu ar gyfer caffael yr holl dir a hawliau sydd eu hangen ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r draffordd newydd a'r gefnffordd newydd a'u cynigion ffyrdd ymyl cysylltiedig;

f) Tystysgrifau Adran 19 drafft sy'n darparu ar gyfer sefydlu Tir Comin a rhandiroedd yn lle'r rhai presennol a diddymu'r hawliau presennol.

1.4 Ar ôl datblygu'r Cynllun ymhellach, mae angen Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft er mwyn mynd i'r afael â'r canlynol:

a) Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig diwygio llwybr Bencroft Lane, Rogiet. Byddai angen meddiannu tir ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft ar gyfer yr aliniad arfaethedig. Byddai tir nad oes ei angen ar y Cynllun mwyach, ond sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, yn cael ei ddileu o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft drwy addasu'r Gorchymyn hwnnw.

b) Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cynnig diwygio llwybr pibell arllwys y system ddraenio o Ardal Trin Dŵr 12b. Byddai hyn yn effeithio ar dir nad yw wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft ac ni fyddai angen y tir sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft ar gyfer y bibell hon, felly byddai'n cael ei ddileu o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft drwy addasu'r Gorchymyn hwnnw.

1.5 Mae Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft Gweinidogion Cymru yn gwneud darpariaeth ar gyfer y newidiadau angenrheidiol a ddisgrifir uchod.

1.6 Mae Atodiad i Ddatganiad Amgylcheddol sy'n nodi effeithiau tebygol posibl y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft wedi cael ei baratoi mewn perthynas â'r newidiadau uchod i'r Cynllun ac mae ar gael i'w arolygu.

1.7 Diben y datganiad hwn yw:

a) Disgrifio'r elfennau penodol o'r Cynllun arfaethedig sy'n destun y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft;

b) Esbonio'r rhesymau dros lunio'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft;

c) Esbonio'r addasiadau canlyniadol arfaethedig i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft;

d) Esbonio'r gweithdrefnau statudol y mae'n rhaid eu cwblhau cyn y gall y gwaith adeiladu ddechrau.

2 Y GORCHYMYN PRYNU GORFODOL DRAFFT A'R GORCHYMYN PRYNU GORFODOL ATODOL DRAFFT

2.1 Teitl llawn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981 ar 24 Mawrth 2016 yw:

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48 (FFORDD GYSYLLTU

CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH)) 201-

2.2 Teitl llawn y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981 yw:

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL (ATODOL) GWEINIDOGION CYMRU (TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH)) 201-

2.3 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft, awdurdodir Gweinidogion Cymru o dan adrannau 239, 240, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac adran 2 a pharagraffau 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, a phob pŵer grymuso arall(3), i brynu'r tir a'r hawliau newydd dros dir a ddisgrifir yn y Gorchymyn drafft yn orfodol.

3 CEFNDIR Y PROSIECT

3.1 Rhoddir Cefndir y Prosiect yn y Datganiad o Resymau dros y Gorchymyn Prynu Gorfodol, fel y'i cyhoeddwyd ar ffurf drafft ar 24 Mawrth 2016.

4 CYD-DESTUN POLISI

4.1 Rhoddir y Cyd-destun Polisi yn y Datganiad o Resymau dros y Gorchymyn Prynu Gorfodol fel y'i cyhoeddwyd ar ffurf drafft ar 24 Mawrth 2016.

5 AMODAU PRESENNOL

5.1 Rhoddir disgrifiad o'r amodau presennol yn y Datganiad o Resymau dros y Gorchymyn Prynu Gorfodol fel y'i cyhoeddwyd ar ffurf drafft ar 24 Mawrth 2016.

6 NODAU AC AMCANION

6.1 Rhoddir Nodau ac Amcanion y Cynllun arfaethedig yn y Datganiad o Resymau dros y Gorchymyn Prynu Gorfodol fel y'i cyhoeddwyd ar ffurf drafft ar 24 Mawrth 2016.

7 Y CYNLLUN ARFAETHEDIG

7.1 Amlinellwyd disgrifiad o'r Cynllun arfaethedig yn y Datganiad o Resymau dros y Gorchymyn Prynu Gorfodol fel y'i cyhoeddwyd ar 24 Mawrth 2016.

7.2 Rhoddir disgrifiad o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft yn adran 9 o'r Datganiad o Resymau hwn.

8 YMGYNGHORIADAU

8.1 Amlinellwyd crynodeb o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn cyhoeddi'r Gorchmynion drafft yn y Datganiad o Resymau dros y Gorchymyn Prynu Gorfodol fel y'i cyhoeddwyd ar 24 Mawrth 2016. Ers cyhoeddi'r Gorchmynion drafft bu rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartïon â diddordeb.

8.2 Ymgysylltwyd â'r cyhoedd ynghylch y cynigion drwy gyfres o Arddangosfeydd Gorchmynion Statudol yn ystod mis Mawrth 2016, wedi'i hategu gan gyfryngau gan gynnwys cylchlythyrau, hysbysebion ar y radio a gwefan y Cynllun.

8.3 Ymgynghorwyd â'r Awdurdod Cynllunio Lleol a pherchenogion tir yn ystod yr Arddangosfeydd Gorchmynion Statudol ym mis Mawrth 2016, ac ers hynny yn ystod y broses o ddatblygu'r cynigion sy'n ymwneud â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft drwy gyfarfodydd a gohebiaeth.

8.4 Cynhelir Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus i'r Cynllun arfaethedig, a fydd yn dechrau ar 1 Tachwedd 2016. Caiff y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft ei gyflwyno i'r Arolygydd a'i ystyried fel rhan o'r Ymchwiliad hwnnw.

9 DISGRIFIAD O'R CYNIGION SYDD WEDI'U CYNNWYS YN Y GORCHYMYN PRYNU GORFODOL ATODOL DRAFFT

Ailalinio Bencroft Lane

9.1 Yn dilyn cyhoeddi'r Gorchmynion drafft ym mis Mawrth 2016, mae trefniant gwell yng Nghyfnewidfa Magwyr wedi cael ei nodi a phenderfynwyd diwygio'r cynigion yn unol â hynny.

9.2 Byddai Bencroft Lane yn cael ei hailalinio o'r B4245, i'r dwyrain o'r eiddo a elwir yn Green Farm Cottages, ar draws trosbont newydd dros yr M48, a byddai'n cysylltu â'r llwybr presennol drwy fynd ar hyd blaen arglawdd Cyffordd arfaethedig 23 yr M4. Byddai'r aliniad hwn yn fwy cyfleus i sawl un o brif ddefnyddwyr y ffordd o gymharu â'r aliniad gwreiddiol yn y Gorchmynion drafft cyhoeddedig.

9.3 Byddai gwyro Bencroft Lane yn golygu y gellir dymchwel Tanbont Bencroft Lance. Mae hyn yn fodd i addasu aliniad fertigol y gefnffordd

dwy lôn newydd arfaethedig fel bod angen cludo llai o gloddwaith i'r man hwn. Mae'r newid arfaethedig hwn yn arwain at gyffordd fwy cyfleus ynghyd â llai o effaith ar yr amgylchedd, llai o symud cloddwaith, llai o strwythurau priffordd a chyfnod adeiladu byrrach.

9.4 Cynigir addasiadau i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft er mwyn ymgorffori'r newidiadau i briffyrdd lleol a Ffyrdd Mynediad Preifat.

9.5 Mae'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft yn ymgorffori'r tir a'r hawliau angenrheidiol i ddarparu'r trefniant amgen. Byddai unrhyw dir sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft cyhoeddedig na fyddai ei angen mwyach yn cael ei ddileu drwy addasiad arfaethedig i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft. Dyma'r lleiniau yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft y byddai'n cael eu haddasu drwy gael eu lleihau: 18/3a, 18/3b, 18/3c, 18/3d, 18/3e,18/3f, 18/3g,18/3h, 18/3j ac 18/3q.

Pibell arllwys y system ddraenio o Ardal Trin Dŵr 12b

9.6 Mae gwaith ymchwilio a wnaed ers cyhoeddi'r Gorchmynion drafft wedi dangos na fyddai Vurlong Reen, y mae Ardal Trin Dŵr yn arllwys dŵr iddo, yn ddigonol ar gyfer anghenion y Cynllun arfaethedig. Mae'r ffos ddraenio yn y lleoliad hwn wedi cael ei rwystro gan arglawdd pridd, ac nid yw'n llifo. Mae pwynt arllwys amgen wedi cael ei nodi, sy'n rhedeg ochr yn ochr â ffordd fynediad Old Court Farm, lle mae'n cysylltu â'r system ddraenio bresennol.

9.7 Mae'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft yn ymgorffori'r tir a'r hawliau angenrheidiol i ddarparu'r trefniant amgen. Byddai unrhyw dir sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol na fyddai ei angen mwyach yn cael ei ddileu drwy addasiad arfaethedig i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft. Y lleiniau a fyddai'n cael eu dileu o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft cyhoeddedig o ganlyniad i hyn yw 18/6a, 18/6c, 18/7f, 18/7g, 18/7h, 18/7j and 18/7g.

10 YR ACHOS DROS BRYNU GORFODOL

10.1 Cyhoeddir y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981.

10.2 Mae'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y tir a'r hawliau sydd eu hangen ar gyfer y Cynllun arfaethedig yn cael eu caffael yn amserol ac er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd statudol i ddarparu priffyrdd a ffyrdd mynediad preifat newydd yn lle'r rhai sy'n cael eu cau o dan y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft.

10.3 Os caiff y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft ei wneud, bydd hefyd yn sicrhau bod modd newid lleoliad rhai pwyntiau mynediad. Os caiff y Gorchmynion drafft eu gwneud, byddant, ar y cyd, yn sicrhau bod modd

adeiladu mesurau lliniaru amgylcheddol priodol a ffyrdd mynediad amgen i dir yr effeithir arno gan y Cynllun arfaethedig.

10.4 Ystyrir mai faint o dir a nodir yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft, ynghyd â'r tir a nodir yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, yw'r lleiafswm sydd ei angen ar gyfer adeiladu'r Cynllun arfaethedig, a'i weithredu a'i gynnal a'i gadw wedi hynny, ynghyd â darparu a chynnal a chadw'r mesurau lliniaru amgylcheddol.

10.5 Wrth lunio'r cynigion ar gyfer y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft, ystyriwyd yr ymyrraeth â hawliau pawb sydd â budd yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft ac y byddai'r Cynllun arfaethedig yn effeithio arnynt fel arall.

10.6 Ystyriwyd y Cynllun arfaethedig ymhellach, fel yr amlinellwyd yn y Datganiad o Resymau dros y Gorchymyn Prynu Gorfodol fel y'i cyhoeddwyd ar 24 Mawrth 2016, o ganlyniad i sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r Gorchmynion drafft neu wybodaeth newydd a ddarparwyd.

10.7 Fel y nodir yn Adran 3 (Cyd-destun Polisi) o'r Rhesymau dros y Gorchymyn Prynu Gorfodol fel y'u cyhoeddwyd ar ffurf drafft ar 24 Mawrth 2016, ystyriwyd Deddf Hawliau Dynol 1998 ac, yn unol â Chylchlythyr Diwygiedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Orchmynion Prynu Gorfodol (NAFWC 14/2004), ystyrir bod achos cymhellol er budd y cyhoedd a all fod yn sail i Weinidogion Cymru benderfynu gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol, sy'n rhoi cyfiawnhad digonol dros ymyrryd â hawliau dynol y rhai sydd â budd yn y tir yr effeithir arno, gan ystyried, yn enwedig, ddarpariaethau Erthygl 1 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac, yn achos annedd, Erthygl 8 o'r Confensiwn.

11 PWERAU I ADEILADU'R CYNLLUN ARFAETHEDIG

11.1 Hyrwyddir y Cynllun arfaethedig gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru fel Awdurdod Priffyrdd yn unol â Deddf Priffyrdd 1980m a byddai'n cael ei adeiladu gan ddeefnyddio'r pwerau hynny hefyd.

11.2 Byddai'r pwerau i adeiladu'r rhan newydd arfaethedig o'r draffordd a'r rhannau newydd arfaethedig o'r gefnffordd, ac i ailddosbarthu rhannau o'r M4 a'r A48(M) presennol yn cael eu rhoi drwy'r Gorchmynion statudol, a restrir isod:

a) Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-

b) Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) 201-

c) Cynllun Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Fagwyr i Fan i'r Dwyrain o Gas-bach) a Thraffordd yr A48(M) (Man i'r Gorllewin o Gas-bach i Laneirwg (Amrywio Amrywiol Gynlluniau) 201-

d) Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) (Atodol) 201-

11.3 Byddai'r pŵer i gau, newid a gwella priffyrdd, cilffyrdd cyfyngedig, llwybrau ceffylau, llwybrau troed a ffyrdd mynediad preifat yn cael ei roi drwy'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl, a gyhoeddwyd ar ffurf drafft ar 10 Mawrth 2016 hefyd, sef:

a) Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) (Ffyrdd Ymyl) 201-

12 MANNAU ADNEUO

12.1 Gellir gweld copïau o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft a'r Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol ynghyd â'r Cynlluniau a'r Gorchmynion drafft cyhoeddedig, y Datganiad Amgylcheddol a gwybodaeth ategol arall yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn unrhyw rai o'r mannau adneuo canlynol:

Y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth,
Adran yr Economi a'r Seilwaith,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ.

Cyngor Dinas Casnewydd,
Y Ganolfan Ddinesig,
Godfrey Road,
Casnewydd,
NP20 4UR.

Cyngor Sir Fynwy,
Neuadd y Sir,
Rhadyr,
Brynbuga,
NP15 1GA.

Cyngor Sir Fynwy,
Tŷ Arloesi,
Parc Busnes Cymru 1,
Magwyr,
Sir Fynwy,
NP26 3DG.

Llyfrgell Ganolog Casnewydd,
Sgwâr John Frost,
Casnewydd,

NP20 1PA.

12.2 Gellir cael copïau ychwanegol o'r wybodaeth gyhoeddedig gan Lywodraeth Cymru.

13 CYFLWYNO GWRTHWYNEBIADAU I'R GORCHYMYN PRYNU GORFODOL ATODOL DRAFFT

13.1 Gall unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno dewisiadau amgen wneud hynny drwy ysgrifennu i:

Y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth,
Adran yr Economi a'r Seilwaith,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ.

13.2 Os byddwch yn dymuno gwrthwynebu neu gefnogi, caiff eich gohebiaeth ei hystyried gan y Tîm Prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, gallwn roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni a'ch data personol. Fodd bynnag, dim ond lle y bo angen datgelu eich manylion personol er mwyn ein galluogi i ddelio â'r materion a godwyd gennych y byddwn yn gwneud hynny.

13.3 Bydd y Cynllun arfaethedig, ynghyd â gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol yn destun Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus (yr Ymchwiliad) a bydd copïau o'r holl ohebiaeth yn cael eu rhoi i Arolygydd yr Ymchwiliad a'u cadw yn Llyfrgell yr Ymchwiliad, a byddant ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

13.4 Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau, sylwadau o gefnogaeth neu ddewisiadau amgen a gyflwynir er mwyn iddynt gyrraedd erbyn 18 Hydref 2016 fan bellaf.